UNLIMITED

# Swyddog Cyllid
# Pecyn ymgeisio

## Am Unlimited

Sefydliad comisiynu, dan arweiniad anabledd, yw Unlimited. Rydyn ni'n comisiynu gwaith eithriadol gan artistiaid anabl a fydd yn newid ac yn herio'r byd.

Rydyn ni'n cefnogi, ariannu a hyrwyddo gwaith newydd gan artistiaid anabl, ar gyfer cynulleidfaoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Cawn ein hariannu gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, Cyngor Celfyddydau Cymru, Y Cyngor Prydeinig, Yr Alban Greadigol, Sefydliad Fidelity a Sefydliad Paul Hamlyn.

Ers 2013, rydym wedi cefnogi dros 521 o artistiaid. Gyda chymorth ariannol o £6.5 miliwn, mae eu gwaith wedi cyrraedd cynulleidfaoedd o dros bum miliwn o bobl gan ein gwneud ni y cefnogwr mwyaf o artistiaid anabl ledled y byd.

Rydym yn Sefydliad Portffolio Cenedlaethol Cyngor Celfyddydau Lloegr 2023-27. Gallwch ddarllen **yma** beth mae hyn yn ei olygu i ni.

Rydyn ni'n unigryw. Rydyn ni'n gweithio ledled y DU ac ar draws pob disgyblaeth, gan brofi bod artistiaid anabl yn wir yn ddigyfyngiad.

Gyda'r holl heriau cymdeithasol a gwleidyddol sy'n bodoli ar hyn o bryd, mae gwaith artistiaid anabl yn fwy hanfodol nag erioed. Trwy ddilyn ein gweledigaeth ac ymarfer ein gwerthoedd, byddwn yn chwarae ein rhan yn yr adfywiad diwylliannol, cymdeithasol ac economaidd, ac yn nyfodol sector y celfyddydau, nid yn unig yn y DU ond hefyd yn rhyngwladol.

Gyda thîm a bwrdd croestoriadol dan arweiniad pobl anabl, rydym yn angerddol dros nid dim ond siarad am gydraddoldeb ac amrywiaeth, ond eu gweithredu hefyd.

Mae gennym ganolfan hwb newydd yn Wakefield, ond mae'r tîm ar wasgar yn ddaearyddol ym mhob cwr o'r DU, felly gellir cyflawni'r swydd hon o unrhyw un o wledydd y DU.

Caiff Unlimited ei arwain gan fwrdd o ymddiriedolwyr (ar hyn o bryd mae 92% ohonynt yn anabl). Mae ein tîm cyfredol yn cynnwys 17 o bobl (ar hyn o bryd mae 82% yn eu diffinio'u hunain fel pobl anabl, a chanddynt anghenion mynediad neu gyflyrau iechyd tymor-hir). Gallwch ddarllen mwy **yma** am ein tîm a'n bwrdd.

## Ein cenhadaeth

Bydd Unlimited yn comisiynu gwaith eithriadol gan artistiaid anabl hyd nes y bydd y sector diwylliannol cyfan yn gwneud hynny. Bydd y gwaith hwn yn newid ac yn herio'r byd.

Mae gennym bedwar o werthoedd:

- Rydyn ni'n ddigyfyngiad, yn Unlimited
- Rydyn ni'n rhoi gwerth ar Gydraddoldeb
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi Artistiaid
- Rydyn ni'n Radical

Mae ein cenhadaeth a'n gwerthoedd ar gyfer y bwrdd, y staff, llawryddion, artistiaid, cynghreiriaid, ac eraill rydym yn cysylltu â hwy. Byddwn yn sicrhau eu bod wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud a sut y byddwn yn gweithredu.

Rydym yn gweithio drwy bum edefyn.

Rydyn ni'n COMISIYNU artistiaid anabl er mwyn creu NEWID.

Rydyn ni'n CEFNOGI a DATBLYGU artistiaid anabl a'u CYSYLLTU hwy â'r sector.

Rydyn ni'n CEFNOGI a DATBLYGU'R sector a'i GYSYLLTU ag artistiaid anabl.

Mae rhagor o wybodaeth i'w chael **yma**.

## Cynhwysiant, amrywiaeth, a mynediad

Mae Unlimited yn angerddol dros gynhwysiant ac yn rhoi gwerth ar brofiad byw yn ei holl ffurfiau.

Mae pobl o'r mwyafrif byd-eang*, sy'n LGBTQIA+, anabl;** a/neu o gefndiroedd dosbarth gweithiol neu gymdeithasol-economaidd isel, yn cael eu hannog yn arbennig i gyflwyno cais.

* Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, bobl o dras Du Caribïaidd, Du Affricanaidd, De Asiaidd, Dwyrain Asiaidd, De-ddwyrain Asiaidd, Gorllewin Asiaidd, Arab, Lladinx, Iddewig, Romani a theithwyr Gwyddelig.

** Mae hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i, rai sy'n eu diffinio'u hunain fel pobl anabl, fel pobl a chanddynt gyflyrau iechyd tymor-hir, yn fyddar, Byddar, niwroamrywiol, neu'n anabl mewn perthynas â'u hanghenion mynediad yn gysylltiedig â'u hiechyd.

Mae pobl o'r grwpiau hyn yn parhau i gael eu tangynrychioli yn y celfyddydau ledled y wlad, ac rydym wedi ymrwymo i herio a newid y sefyllfa hon.

Yn ogystal â'r fformat ysgrifenedig hwn, mae ein pecynnau cais ar gael ar ein gwefan mewn print bras, Iaith Arwyddion Prydain (BSL) a fformatau sain.

Rydym yn hapus i ddarparu ein pecynnau cais mewn fformatau eraill, yn cynnwys Braille, ar gais. Cysylltwch â ni drwy ebost ar info@weareunlimited.org.uk neu ffoniwch ni ar 07506 679968.

Nid ydym yn gwneud ceisiadau'n ddi-enw, ac rydym yn defnyddio data cydraddoldeb i gydbwyso ein rhestr fer, gan mai un o'n meini prawf sy'n cael ei sgorio yw ychwanegu at amrywiaeth ein tîm. Gallwch ddarllen **yma**, yn un o'n blogiau diweddar, sut rydyn ni'n recriwtio.

## Ffeithiau allweddol am y swydd

Teitl y swydd: Swyddog Cyllid

Yn atebol i'r: Rheolwr Cyllid

Math o gytundeb: Parhaol

Oriau: Rhagwelir y bydd y swydd yn golygu 40 awr (amser llawn), ond byddem hefyd yn croesawu ceisiadau am 32 awr (yn gyfwerth ag 0.8 amser llawn), yn cynnwys toriadau am egwyl.

Cyflog: £29,757 y flwyddyn, pro rata

## Buddion

Oriau gwaith: Mae gan Unlimited ddiwylliant ac oriau gwaith hyblyg. Rydym yn gweithredu polisi o gynnig amser rhydd i ddigolledu staff am y teithio achlysurol a gwaith ar benwythnosau/fin nos y gellid bod galw amdano o bryd i'w gilydd.

Gweithio o bell: Gall pob aelod o dîm Unlimited weithio o gartref, neu o ganolfan sefydliad celfyddydol lleol (lle bo modd), ac os ydynt o fewn pellter cymudo i Wakefield gallant weithio yn swyddfa'r hwb.

Hyfforddi a Datblygu: Mae Unlimited wedi ymrwymo i hyfforddi a datblygu'r staff, fel unigolion ac fel tîm.  Darperir Hyfforddiant Cydraddoldeb Anabledd ar gyfer yr holl gyflogeion.

Polisïau a gweithdrefnau: Mae'r tîm yn gweitho ar y cyd i ddatblygu ein polisïau a'n gweithdrefnau, gan sicrhau bod ein dulliau o weithio'n ffocysu ar bobl.

Mynediad: Mae Unlimited yn hapus iawn i wneud addasiadau rhesymol, ac i addasu arferion a gweithdrefnau cyfredol i gwrdd ag anghenion mynediad, a chefnogir pob aelod o'r tîm i wneud cais am y cynllun Mynediad i Waith i dalu costau perthnasol.

Gwyliau blynyddol: 25 diwrnod ynghyd â gwyliau Banc/Cyhoeddus, ac un diwrnod am bob blwyddyn ychwanegol o weithio i Unlimited, hyd at uchafswm o bum diwrnod (cyfwerth ag amser llawn).

Dyddiau iechyd meddwl: Tri diwrnod.

Dyddiau i ffwrdd: Mae'r tîm yn ymrwymo i gwrdd yn ystod y flwyddyn mewn lleoliadau ledled y DU.

Cronfa Gelf: Rhoddir £100 i bob aelod o'r tîm i gyfrannu tuag at gost prynu darn o gelf a gynhyrchwyd gan artist anabl.

## Am y swydd

Rydyn ni'n chwilio am berson i ymuno â'n tîm Cyllid, i weithio ochr yn ochr â'r Swyddog Cyllid cyfredol a chefnogi'r Rheolwr Cyllid yn y dasg o ymdrin â holl anghenion cyfrifyddu yr elusen.

Mae'r cyfrifoldebau (a rennir gyda Swyddog Cyllid rhan-amser) yn cynnwys:

- Cofnodi'r holl drafodion incwm a gwerthiant yn Quickbooks, gan sicrhau bod y codio cywir, y ddogfennaeth atodol lawn, a'r gymeradwyaeth briodol, yn eu lle, yn unol â'n Polisi Cyllid ac Awdurdod Dirprwyedig. Mae'r rhain yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:
- Prosesu anfonebau pryniant a chostau, a monitro credydwyr yn rheolaidd
- Prosesu grantiau i fuddiolwyr
- Prosesu datganiadau cerdyn talu
- Cofnodi incwm, paratoi anfonebau gwerthiant yn ôl y galw, a monitro dyledwyr ar drefniant rheolaidd, gan weithredu i reoli credyd lle bo angen
- Cysylltu â staff, artistiaid, credydwyr ac unrhyw bartïon perthnasol yn ôl yr angen
- Rheoli'r broses o daliadau wythnosol, gan sicrhau bod ymholiadau sy'n ymwneud â thaliadau yn cael eu cofnodi a'u hateb
- Gweinyddu cyfrifon banc yr elusen, gan sicrhau bod isafswm balansau'n cael eu cynnal, a'r trafodion yn cael eu postio'n gywir a'u cysoni â'r datganiadau
- Gweinyddu'r gyflogres fisol drwy Moorepay, gan sicrhau bod yr holl drafodion perthnasol yn cael eu postio'n gywir a'r taliadau'n cael eu prosesu'n unol â hynny
- Gweinyddu ceisiadau Mynediad at Waith mewn modd amserol, gan gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau ac aelodau o'r staff yn ôl yr angen
- Cymryd rhan yn y broses o gloi ar ddiwedd y mis, yn cynnwys postiadau dyddlyfr misol a chysoniadau ategol, i amserlen y cytunwyd arni
- Sicrhau cywirdeb y trafodion a fewnbynnir i Quickbooks drwy adolygiad rheolaidd
- Archwilio a datrys anghysonderau sy'n berthnasol i'r cyfrifon, gan godi unrhyw broblemau a/neu bryderon gyda'r Rheolwr Cyllid
- Helpu gyda hyfforddi staff Cyllid newydd yn ôl yr angen
- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid gyda'r pecynnau rheoli cyfrifon misol/chwarterol
- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid gyda'r broses gyllido/rhagfynegi dair gwaith y flwyddyn
- Cefnogi'r Rheolwr Cyllid gyda'r archwiliad blynyddol
- Unrhyw dasgau eraill ar gais y Rheolwr Cyllid a/neu'r Cyfarwyddwr

**Dyletswyddau eraill**

- Mynychu pob cyfarfod staff, rhaglen a phrosiect, yn ogystal â dyddiau i ffwrdd, yn ôl yr angen.
- Glynu at ein gwerthoedd, polisïau a gweithdrefnau, gan gyfrannu at eu datblygiad i'w gwneud yn fwy hygyrch a chynhwysol.
- Hyrwyddo croestoriadedd ac amrywiaeth yn eu holl ffurfiau.
- Gweithio'n gydweithredol a chefnogi aelodau eraill o'r staff yn eu meysydd gwaith hwy pan fo angen.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y gellid o bryd i'w gilydd fod eu hangen gan yr Uwch-gynhyrchydd neu'r Cyfarwyddwr.

Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn rhoi arweiniad i natur y gwaith sydd ei angen ar gyfer y swydd hon. Nid yw'n gwbl gynhwysol na chyfyngol, a chaiff ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau ei gywirdeb a'i ddilysrwydd.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn ynghylch yr wybodaeth uchod, cysylltwch ag info@weareunlimited.org.uk.

## Am beth rydyn ni'n chwilio?

Isod, mae'r fanyleb person ar gyfer y rôl hon. Disgwyliwn i bob ymgeisydd gwrdd â'r holl ofynion hanfodol, a chynnig rhai o'r nodweddion dymunol hefyd.

**Hanfodol**

- Lleiafswm o 2 flynedd o brofiad yn gweithio mewn swydd ariannol debyg gydag elusen
- Cymhwyster mewn Cadw Llyfrau neu gymhwyster ar lefel cyfwerth
- Profiad o ymdrin â gweithdrefnau ariannol o ddydd i ddydd
- Profiad o ddefnyddio meddalwedd cadw cyfrifon, megis Quickbooks, Xero neu gyfwerth
- Yn gyfarwydd â defnyddio PC, a gwybodaeth dda o Microsoft Office, yn enwedig Excel
- Y gallu i roi sylw gofalus i fanylion a chywirdeb, a dull trefnus o ymdrin â thasgau gweinyddol

- Sgiliau cyfathrebu o safon uchel ar lafar ac yn ysgrifenedig
- Yn hunan-gymhellol, gyda sgiliau trefnu da a'r gallu i weithio i derfynau amser
- Yn gyfforddus wrth weithio o bell, yn annibynnol ac fel aelod o dîm
- Ymrwymiad i arfer gorau
- 

**Dymunol**

- Profiad o weithio gyda thîm a chanddo nifer o anghenion mynediad gwahanol.
- Gwybodaeth am sector y celfyddydau ledled y DU, ei rwystrau a'i strwythurau.
- Brwdfrydig am weledigaeth Unlimited.
- Profiad o weithio o bell.
- Yn ychwanegu at amrywiaeth ein tîm cyfredol.

## Sut i ymgeisio

Gellir cyflwyno ceisiadau trwy destun, sain neu fideo (mae croeso i chi ddefnyddio pa ddulliau bynnag sydd orau gennych) trwy ein porth ymgeisio ar-lein.

Yn y pen draw, rydym yn awyddus i wybod pam y byddech chi'n wych yn y rôl, a gallwch rannu hyn gyda ni mewn unrhyw ddull o'ch dewis. Os dymunwch, gallwch hefyd ymgeisio drwy ebost, a byddwn ni'n uwchlwytho'r cynnwys i'r porth ymgeisio ar eich rhan.

Gallwch gael mynediad at y porth ymgeisio yma.

Gallwch gael mynediad at fersiwn Dogfen Word o gwestiynau'r cais yma.

Os oes yna ddull arall y byddai'n well gennych ei ddefnyddio oherwydd eich anghenion mynediad, rhowch wybod i ni. Rydym yn awyddus i ddileu cymaint o rwystrau ag y bo modd ynghlwm â chyflwyno cais.

Cynhelir cyfweliadau'n rhithiol trwy gyfrwng fideo (ar Zoom fel arfer). Bydd pob panel dewis ar gyfer pob rôl yn Unlimited yn cynnwys o leiaf un person o'r mwyafrif byd-eang, a lleiafswm o 50% o bobl anabl.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffredinol ynghylch cyflwyno cais, neu os hoffech rannu gyda ni unrhyw adborth sydd gennych am y broses ymgeisio, gallwch anfon ebost atom ar info@weareunlimited.org.uk.

## Amserlen Recriwtio

Diwrnod cau ar gyfer ceisiadau: Dydd Gwener 14 Mehefin 2024, canol dydd.

Cysylltir â phob ymgeisydd erbyn: Dydd Llun 24 Mehefin 2024.

Cyfweliadau: Dydd Gwener 5 Gorffennaf 2024. Mae'n bosibl hefyd y cynhelir ail rownd o gyfweliadau, y dyddiad i'w gadarnhau.

Dyddiad cychwyn a awgrymir: Diwedd Gorffennaf/Awst 2024.

Rydyn ni'n sylweddoli faint o amser ac ymdrech sy'n mynd i mewn i'r gwaith o lunio a chyflwyno cais, felly byddwn yn trin pob cais unigol â'r un gofal a sylw. Byddwn yn gwneud hyn drwy edrych yn fanwl ar y cais, gan gyfeirio at yr elfennau hanfodol a dymunol a nodir yn y fanyleb person uchod.

Os nad yw dyddiadau'r cyfweliadau'n gyfleus i chi, rhowch wybod i ni yn eich cais.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, byddwn yn anfon cwestiynau'r cyfweliad atoch o flaen llaw. Mae hyn fel arfer yn digwydd ryw awr neu ddwy cyn y cyfweliad ei hun (gwneir hyn i arbed pobl rhag paratoi'n ormodol – nid arholiad yw hwn, ac nid oes atebion 'cywir' neu 'anghywir'). Os oes angen i chi eu derbyn yn gynt na hyn am resymau mynediad, mae croeso i chi roi gwybod i ni.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi os bydd ein hamserlen yn newid, a byddwch yn clywed oddi wrthym beth bynnag fydd canlyniad eich cyfweliad.

Os na fydd eich cais yn arwain at gyfweliad byddwn yn gadael i chi wybod, ond yn anffodus ni allwn gynnig adborth os byddwn wedi derbyn dros 30 o geisiadau am swydd, gan nad oes gennym ddigon o staff i wneud hynny.

Byddwn yn cysylltu â phob ymgeisydd gafodd eu cyfweld, gyda chanlyniad y cyfweliad.

WX Wakefield Exchange, Union Street, Wakefield, WF1 3AE
weareunlimited.org.uk 07506 679968 info@weareunlimited.org.uk
Registered Charity number: 1196665